

## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 10 Medi 2024 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Geraint Lloyd-Williams, Julie Matthews, James May, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Raj Metri, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott (Cadeirydd), Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, David Williams, Elfed Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 (LT); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd (TW); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Cyflwynydd Zoom a Gweddarlledu (KJ); a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

#### 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dim.

#### 3 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y Rhybudd o Gynnig - Cynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Pauline Edwards, Geraint Lloyd-Williams, Paul Keddie, Merfyn Parry, Andrea Tomlin, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Williams, Karen Edwards a Chris Evans.

*'Dymunwn ddwyn cynnig gerbron i ddiswyddo'r Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan a'i Gabinet. Mae digwyddiadau diweddar yn ymwneud ag arweinyddiaeth y cyngor wedi codi pryderon difrifol am eu heffeithiolrwydd. Mae gweithrediad trychinebus ac aneffeithlon y system ailgylchu gwastraff newydd, ynghyd â'r diffyg eglurder ac atebolrwydd a amlygwyd mewn papur briffio diweddar, wedi arwain at golled hyder yn llwyr ymhlith trigolion.*

*Yn fwy na hynny, mae sgil-ffeithiau'r system newydd hon wedi rhoi straen sylweddol ar adrannau eraill o fewn Cyngor Sir Ddinbych, wrth i adnoddau staff gael eu dargyfeirio i fynd i'r afael â methiannau'r fenter ailgylchu. Mae'r dargyfeiriad hwn wedi arwain at gynnydd amlwg mewn costau gweithredu, sydd yn ei dro wedi cael effaith negyddol ar wasanaethau rheng flaen sy'n hanfodol i'r gymuned.*

*Mae diffyg strategaeth ac arweiniad effeithiol wedi achosi cryn her i drigolion ledled y sir, ac mae'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod wedi bod yn aruthrol. Nid yw bellach yn gynaliadwy i gynnal y dull hwn, a rhaid rhoi'r flaenoriaeth i les trigolion Sir Ddinbych. Felly, fel aelodau o'r grŵp annibynnol, galwn yn gryf ar yr Arweinydd a'i Gabinet i ymddiswyddo.'*

Eglurodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts nad oedd y cynnig yn bersonol a'i gyflwyno oedd un o'r penderfyniadau anoddaf yr oedd yr aelodau a enwyd uchod wedi ei wneud. Dywedodd mai'r bwriad oedd codi pryderon trigolion am faterion a oedd yn effeithio ar y Sir gyfan. Dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts bod yr holl gynghorwyr wedi derbyn cwynion a bod pobl ddiamddiffyn yn ei chael hi'n anodd. Felly, roedd y cynnig wedi cael ei gyflwyno i drafod perfformiad y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts bod y cysyniad o'r system casglu gwastraff newydd wedi cael ei gyflwyno yn ystod y Cabinet blaenorol ond bod gwahaniaeth rhwng cysyniad a gweithrediad ac nid oedd gweithrediad y casgliadau gwastraff newydd yn gweithio. Mynegodd ei bryderon bod Sir Ddinbych yn dod yn awdurdod dan arweiniad swyddogion ac roedd yn credu bod hyn yn amlwg o'r ymateb i gwestiynau mewn sesiwn frifio ddiweddar i aelodau ar y drefn newydd ar gyfer casglu gwastraff.

Amlygodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts:

- Adroddwyd lefelau hyder budd-ddeiliaid gostyngedig neu isel i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2024 mewn perthynas ag economi, isadeiledd cludiant a threftadaeth ddiwylliannol Sir Ddinbych.
- Ymagwedd y Cabinet presennol tuag at fuddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd, gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac yn y cyngor a'r penderfyniad diweddar i gau swyddfeydd Caledfryn, a disgrifiodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y rhain fel swyddfeydd mwyaf eco-gyfeillgar y Cyngor.
- Roedd nifer y tai cyngor newydd a adeiladwyd yn ystod y weinyddiaeth hon yn siomedig.
- Roedd cyllideb y Cyngor wedi cael ei phasio er nad oedd yr arbedion o £3 miliwn a oedd eu hangen i gydbwyso'r gyllideb wedi cael eu cadarnhau ar adeg pasio'r gyllideb.
- Problemau yn ymwneud â Marchnad y Frenhines yn Y Rhyl a oedd yn wag ar hyn o bryd a heb unrhyw drefniadau rheoli i redeg yr adeilad. Dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y dylai bod y Cabinet wedi ymgysylltu â darparwr gwasanaethau hamdden y Cyngor, Hamdden Sir Ddinbych Cyf, i reoli Marchnad y Frenhines.
- Pryderon eang ynglŷn â lleihau oriau agor llyfrgelloedd ac adroddodd gyfathrebu gwael gydag aelodau ar gynigion i gau toiledau cyhoeddus.
- Oedi o ran caniatâd cynllunio a oedd yn oedi twf economaidd Sir Ddinbych.

- Cynnydd yn nhreth y cyngor.
- Costau cynyddol y system casglu gwastraff, y niwed i enw da'r cyngor oherwydd y problemau gyda chyflwyno'r gwasanaeth, yr effaith ar wasanaethau eraill y cyngor oherwydd adleoli staff i gynorthwyo â'r gwasanaeth casglu gwastraff a'r anawsterau a brofwyd gan drigolion wrth gysylltu â'r cyngor ynglŷn â gwastraff heb ei gasglu.

Wrth gloi, dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts bod y cyngor wedi gweithio dros nifer o flynyddoedd i fod yn agos i'r gymuned ond yn awr roedd yn teimlo bod arweinyddiaeth y cyngor yn agosach at Gaerdydd na chymunedau Sir Ddinbych ac fe anogodd yr aelodau i gefnogi'r cynnig.

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai cynrychiolwyr grwpiau gwleidyddol yn mynd i'r afael â'r cynnig, ac wedi hynny, byddai aelodau eraill yn cael cyfle i siarad.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Irving, ar ran Grŵp y Ceidwadwyr, mai ychydig iawn yr oedd gan y weinyddiaeth bresennol i fod yn falch ohono ar ôl dwy flynedd yn y swydd. Dywedodd wrth yr aelodau bod y Cabinet presennol wedi etifeddu sefyllfa ariannol rhesymol foddhaol ond roedd yn awr yn gweld anawsterau ariannol a chostau ychwanegol, yn enwedig gyda'r gwasanaeth casglu gwastraff newydd.

Amlygodd y Cynghorydd Irving:

- Dibyniaeth ar doriadau staff a thoriadau eraill a arweiniodd at ddarparu llawer o wasanaethau hanfodol y cyngor i'r lefelau yr oedd y cyhoedd yn eu disgwyl gan arwain at adroddiadau o forâl isel ymhlith staff.
- Ei anghytundeb â phroses y gyllideb a oedd wedi gadael rhywfaint o'r arbedion angenrheidiol heb eu nodi.
- Y ffocws ar doriadau i wasanaethau poblogaidd megis llyfrgelloedd a thoiledau cyhoeddus.
- Anallu'r Cabinet i ddeall lle'r oedd blaenoriaethau trigolion, er enghraifft, wrth i'r Cabinet hyrwyddo polisïau gwyrdd drud.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Irving ei fod yn ystyried y problemau a oedd wedi eu crybwyll fel tynnu sylw at ddiffyg ystyriaeth yr Arweinydd a'r Cabinet o bryderon y trigolion a disgrifiodd y siom yn y weinyddiaeth a welwyd yn yr adborth, adroddiadau'r wasg a chyfryngau cymdeithasol. Am y rhesymau hyn, dywedodd bod Grŵp y Ceidwadwyr yn cefnogi'r cynnig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Martyn Hogg, ar ran Grŵp y Blaid Werdd, at benderfyniad y cyngor i gael ymchwiliad trylwyr i gyflwyniad y system ailgylchu newydd. Ystyriodd fod y cynnig gerbron y Cyngor yn penderfynu canlyniad yr ymchwiliad ymlaen llaw am resymau gwleidyddol ac roedd yn annog aros am ganlyniad yr ymchwiliad.

Amlygodd y Cynghorydd Hogg:

- Roedd y cynnig yn cynnwys meysydd pryder cyffredinol dilys ond roedd aelodau angen mwy o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.

- Ei anghytundeb â chasgliad y Grŵp Annibynnol bod y problemau gyda chasglu gwastraff wedi deillio o fethiant arweinyddiaeth y Cyngor. Roedd yn ystyried hyn fel casgliad cynamserol, a allai gael ei adolygu'n iawn yn yr ymchwiliad.
- Sut yr oedd y newidiadau i gasgliadau gwastraff wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod tymor diwethaf y Cyngor gan y Cabinet ar y pryd ond cyn lansio, roedd wedi dod yn destun dadl wleidyddol. Daeth rhai o aelodau'r Cabinet blaenorol a oedd wedi cefnogi'r system newydd yn feirniadol iawn ohoni ac roedd y Cynghorydd Hogg yn ystyried hyn yn fanteisiaeth wleidyddol.
- Ni fyddai pleidlais o ddiffyg hyder ar hyn o bryd o fudd i drigolion Sir Ddinbych a byddai gwneud newidiadau i weinyddiaeth y Cyngor yn tynnu sylw'n anamserol.

Ar ran Grŵp Plaid Cymru, diolchodd y Cynghorydd Delyth Jones i'r Cynghorydd Hilditch-Roberts am gyflwyno'r cynnig a rhoi cyfle i aelodau edrych ar y problemau o amgylch y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd yn ogystal â materion perthnasol eraill.

Amlygodd y Cynghorydd Jones:

- Cydnabuwyd nad oedd cyflwyniad y drefn newydd ar gyfer casglu gwastraff wedi bod yn dderbyniol ac roedd agweddau o'r newidiadau wedi achosi llawer o heriau, rhwystredigaethau a straen i breswylwyr, aelodau a swyddogion fel ei gilydd.
- Roedd Grŵp Plaid Cymru yn cefnogi'r ymholiad craffu llawn o'r problemau cyflwyno fel y ceisiwyd gan yr Arweinydd a'r aelod arweiniol oherwydd ei bod yn orfodol bod casgliadau a phenderfyniadau yn seiliedig ar ffeithiau yn hytrach na barn.
- Ar hyn o bryd, roedd diffyg gwybodaeth fanwl y byddai'r ymholiad craffu yn ei roi. Rhoddodd y Cynghorydd Jones grynodedb o'r pwyntiau allweddol a'r amserlenni yn gysylltiedig â ffurfio'r model casglu gwastraff newydd o dan y Cabinet blaenorol o 2018 i fis Ebrill 2022 pan gymeradwywyd Achos Busnes diwygiedig terfynol gan y Cabinet blaenorol yn ystod un o'u cyfarfodydd olaf cyn diwedd tymor y Cyngor. Roedd y pwyntiau allweddol hyn yn cynnwys penderfyniadau i symud i'r system gwastraff ac ailgylchu newydd am resymau amgylcheddol ac ariannol, datblygu'r model darparu busnes a gwasanaeth newydd, y prosesau tendro a chaffael a chymeradwyo'r achos busnes terfynol.
- Roedd yr Arweinydd a'r Cabinet presennol wedi etifeddu'r cynlluniau datblygedig ar gyfer newid casgliadau gwastraff gan y weinyddiaeth flaenorol ac wedi bwrw ymlaen â'r rhain yn ddiwyll, yn wahanol i nifer o gynghorwyr a oedd wedi bod yn rhan o'r weinyddiaeth flaenorol ac wedi cefnogi'r newidiadau pan yr oeddent yn y Cabinet ond wedi ceisio eu tanseilio yn y gwrthbleidiau.
- Nid oedd Grŵp Plaid Cymru yn credu bod y Cabinet presennol yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau a wnaed gan y weinyddiaeth flaenorol ac roedd sawl problem weithredol a oedd wedi tanseilio effeithiolrwydd y gwasanaeth newydd nad oedd modd eu priodoli i fethiannau arweinyddiaeth wleidyddol.

- Nid oedd eto'n bosibl i ddod i gasgliad clir a chytbwys ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am y problemau yn gysylltiedig â'r drefn casglu gwastraff newydd ond byddai hyn yn gliriach yn dilyn yr ymholiad craffu.

Yna, fe aeth y Cynghorydd Jones i'r afael â phwyntiau eraill a oedd wedi cael eu gwneud yn gysylltiedig â'r cynnig:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y nifer o drafodaethau a arweiniwyd gan y Cabinet gyda'r holl aelodau wedi'u hanelu at ddeall a mynd i'r afael â diffygion heriol yn y gyllideb a oedd tu hwn i reolaeth y Cyngor. Roedd Sir Ddinbych yn profi'r angen i wneud toriadau mawr i'r gyllideb fel pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol arall yng Nghymru a thu hwnt.
- Roedd llunio cyllideb gytbwys a chyfreithlon yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn galw am benderfyniadau anodd ac roedd pob aelod wedi cael cyfle i gynnig datrysiadau amgen credadwy a chyraeddadwy.
- O ran y penderfyniad anodd i leihau oriau agor llyfrgelloedd, dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael eu hanwybyddu, ac roedd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Emrys Wynne, wedi herio swyddogion yn gadarn a newid y gostyngiad arfaethedig o 50% i 40%. Er iddo ddigwydd mewn rhai awdurdodau, cadarnhaodd nad oedd cau llyfrgelloedd wedi cael ei ystyried yn Sir Ddinbych. Roedd Tasglu Llyfrgelloedd a ffurfiwyd i ymchwilio i sut y gallai'r gwasanaeth ffynnu yn y dyfodol yn enghraifft arall o ymagwedd gadarnhaol tuag at sefyllfa heriol.

Dywedodd y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor a'r Blaid Lafur, ei fod yn cydnabod bod y problemau gyda chyflwyno'r gwasanaeth casglu gwastraff wedi digwydd dan ei wylidwriaeth ef, a'i fod wedi ymddiheuro'n gyhoeddus a thro ar ôl tro i'r trigolion a effeithiwyd, a'i fod yn ceisio mynd i'r afael â'r methiannau a'u cywiro. Roedd y Cynghorydd McLellan yn ystyried y gwasanaeth casglu gwastraff y cartref, yn un o wasanaeth sylfaenol, craidd y Cyngor, ac roedd cyflwyniad y gwasanaeth newydd wedi mynd o'i le. Diolchodd i'r aelodau am gynorthwyo eu preswylwyr â mynd i'r afael â chasgliadau a fethwyd.

Rhoddodd y Cynghorydd McLellan wybod i'r aelodau am ei benderfyniad i ofyn i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i ddechrau ymchwiliad llawn i'r problemau mewn perthynas â'r drefn newydd ar gyfer gwastraff.

Amlygodd y Cynghorydd McLellan:

- Nododd ei fod yn cytuno gyda honiad y Cynghorydd Delyth Jones, bod y Cyngor a'r Cabinet presennol wedi etifeddu prosiect wedi'i ddatblygu a'i gostio gyda chynllun busnes gan y weinyddiaeth flaenorol ar gyfer y newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff. Gwrthododd y syniad bod y Cabinet ddim ond wedi etifeddu cysyniad neu syniad bras o system gasglu newydd.
- Fel yr oedd penderfyniadau'r Cabinet blaenorol o 2018 hyd at ddiwedd ei dymor ym mis Ebrill 2022 wedi gosod tendrau am gerbydau a'r orsaf casglu gwastraff a'r modelu manwl ar gyfer y llwybrau casglu.
- Dywedodd ei fod yn cydnabod bod cynghorwyr a fyddai wedi hoffi cadw'r hen system ailgylchu a chasglu ond dywedodd y byddai newid cyfeiriad wedi costio miloedd o bunnoedd i'r Cyngor ac ni fyddai wedi darparu'r buddion

gwastraff, ailgylchu, amgylcheddol ac eraill a oedd wedi ysgogi'r weinyddiaeth flaenorol i newid y system casglu gwastraff.

Wrth fynd i'r afael â honiadau'r cynnig am ei arweinyddiaeth, pwysleisiodd y Cynghorydd McLellan ei fod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y problemau a'i fod o a'r aelod arweiniol, y Cynghorydd Barry Mellor, wedi cymryd rhan lawn a gweithio'n galed gyda swyddogion i herio dyluniadau llwybrau a darpariaeth y gwasanaeth i ddatrys y problemau. Amlinellodd sut yr oedd gwallau amlwg wedi cael eu gwneud o ran sut yr oedd y gwasanaeth newydd a'i gynllun busnes wedi cael eu dylunio i'w darparu o ran capasiti'r gwasanaeth i gasglu gwastraff o'r llwybrau bwriadedig. Dangosodd gyflwyniad y gwasanaeth nad oedd y rhagdybiaethau yn cyd-fynd â'r realiti ar lawr gwlad. Nid oedd y Cynghorydd McLellan eisiau barnu'r gwallau a oedd wedi cael eu canfod yn y rhagdybiaethau, oherwydd y byddai hynny yn rhan o rôl ymchwiliad craffu. Ymddiheurodd y Cynghorydd McLellan i'r preswylwyr a oedd wedi profi casgliadau gwastraff a fethwyd.

Wrth fynd i'r afael â phroblemau'r gwasanaeth casglu gwastraff, amlinellodd y Cynghorydd McLellan:

- Roedd defnyddio adnoddau ychwanegol yn golygu costau ychwanegol.
- Adroddodd y ffigyrau casglu ar gyfer yr wythnos ddiwethaf a oedd yn dangos cyfradd gasglu o 99.4% a sefyllfa well.
- Roedd nifer y staff o adrannau eraill yn y Cyngor a ddefnyddiwyd fel staff cymorth dros dro ar gyfer y gwasanaeth casglu gwastraff yn gymharol isel, o 0 i 8 aelod o staff y dydd, cyfartaledd o 3 aelod staff y dydd. Cafwyd yr aelodau staff hyn o gronfa fawr o staff y Cyngor ac nid oeddent yn cynnwys staff rheng flaen.
- Nid oedd y gwrthbleidiau wedi cyflwyno unrhyw awgrymiadau ymarferol i ddatrys y problemau a oedd wedi codi yn ystod y cyfnod cyflwyno, ar wahân i fynd yn ôl i'r hen system, ond nid oedd hynny'n bosibl.

I gloi, fe aeth y Cynghorydd McLellan i'r afael â'r heriau eraill i'w arweinyddiaeth a wnaed yn ystod y drafodaeth ar y cynnig:

- Nid oedd y Cynghorydd McLellan yn ystyried yr heriau yn gysylltiedig â phenderfyniadau cyllideb fel ymosodiad ar ei arweiniad. Roedd y sefyllfa ariannol ddifrifol roedd y Cyngor yn ei hwynebu yn galw arno, fel Arweinydd, i fod yn barod i wneud penderfyniadau anodd. Gwahoddwyd pob aelod i arsylwi a chymryd rhan sesiynau briffio a diweddariadau cyllideb rheolaidd.
- Roedd y penderfyniad i gau swyddfeydd Caledfryn yn adlewyrchu'r newidiadau i fyd gwaith, ac nid oedd gan y Cyngor angen tair swyddfa fawr bellach. Cael gwared ar swyddfeydd Caledfryn fel ased gyfalaf oedd yn gwneud y mwyaf o synnwyr.
- Gan gyfeirio at feirniadaeth y Cynghorydd Hilditch-Roberts o'r buddsoddiad presennol mewn adeiladau ysgol, dywedodd y Cynghorydd McLellan fod tymor y Cynghorydd Hilditch-Roberts fel aelod arweiniol addysg wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan yr oedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Sir Ddinbych er mwyn adeiladu ysgolion, yn cynnwys dwy ysgol cyfrwng Cymraeg.

- Gan gyfeirio at Farchnad y Frenhines, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod yr adeilad yn cael ei adeiladu cyn dewis gweithredwr ac felly cafwyd anawsterau gwirioneddol wrth i weithredwyr posibl fynegi safbwyntiau gwahanol ar ddyluniad yr adeilad. Felly, nid oedd y methiant hwn yn ymwneud â'r Cabinet ac roedd yn parhau i fod yn destun trafodaeth a mynegodd y Cyngorydd McLellan hyder y byddai'r mater yn cael ei ddatrys.
- Roedd 39 o adroddiadau archwilio wedi cael eu cynnal yn y 2 flynedd ddiwethaf ers i'r Cyngorydd McLellan gael ei benodi fel Arweinydd. Roedd 30 ohonynt wedi derbyn sgôr sicrwydd uchel, roedd 9 wedi derbyn sgôr sicrwydd canolig, ac ni chafwyd archwiliadau â sgôr sicrwydd isel. Dywedodd fod hynny'n dangos bod trefniadau llywodraethu da ac arweinyddiaeth dda ar waith

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i aelodau eraill a wnaeth y sylwadau canlynol.

- Dywedodd y Cyngorydd Brian Jones ei fod ef, fel cyn-aelod arweiniol gwastraff, wedi bod yn erbyn cael gwared ar y biniau glas a newid i'r system trolibocs, ond roedd y Cabinet wedyn wedi cael gwybodaeth ac adroddiadau pellach, yn cynnwys gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a oedd yn cyngori'r Cyngor. Yn y pendraw, dywedodd y Cyngorydd Jones bod y Cabinet blaenorol wedi gorfod newid y system casglu gwastraff oherwydd newidiadau i'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwasanaeth. Dywedodd ei fod wedi cynnig datrysiad ar gyfer Marchnad y Frenhines yr haf hwn nad oedd wedi cael ei dderbyn ac anogodd aelodau i ystyried blaenoriaethau eu trigolion wrth bleidleisio ar y cynnig.
- Adolygodd y Cyngorydd Karen Jones y problemau casglu gwastraff a oedd wedi eu profi yn ei ward ac, er bod y sefyllfa wedi gwella'n rhannol, nid oedd y gwasanaethau statudol disgwylidig yn cael eu darparu. Dywedodd wrth yr aelodau am y cwynion a oedd wedi eu derbyn, yn cynnwys tystiolaeth fideo o staff casglu gwastraff yn taflu batris wedi'u gwahanu i mewn i wrych a chyfuno gwastraff a deunyddiau ailgylchu wedi'u gwahanu. Beirniadodd y Cyngorydd Edwards yr Arweinydd ac aelod arweiniol am fethiant o ran arweinyddiaeth a chyfeiriodd at y gorwariant costau parhaus yn deillio o fethiannau yn y drefn newydd ar gyfer gwastraff.
- Rhoddodd y Cyngorydd Bobby Feeley grynodedd o'i gyrfa fel Cyngorydd yn Sir Ddinbych. O ran ei chefnogaeth o'r bleidlais o ddiffyg hyder yn yr Arweinydd a'r Cabinet, adlewyrchodd ar bryderon ehangach na'r problemau casglu gwastraff a oedd wedi bod yn drychinebus, gan gyfeirio at ei hanfodlonrwydd gyda phrosesau gosod y gyllideb a gosod treth y cyngor, effaith staff profiadol yn gadael eu swyddi a'r swyddi hynny ddim yn cael eu llenwi, a blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu methu.
- Cadarnhaodd y Cyngorydd Terry Mendies y byddai'n cefnogi'r bleidlais o ddiffyg hyder nid yn unig oherwydd y problemau casglu gwastraff newydd ond hefyd oherwydd y cynnydd yn nhreth y cyngor dros y 2 flynedd ddiwethaf a'r rhai a oedd yn debygol o gael eu gosod yn y blynyddoedd i ddod, gweithrediad Marchnad y Frenhines, toriadau i wasanaethau llyfrgelloedd, a cheisiadau cynllunio ac ôl-groniadau gorfodi.
- Cyfeiriodd y Cyngorydd Huw Williams at y broses adolygu craffu.

- Mynegodd y Cynghorydd Pauline Edwards bryder ynglŷn â Chynghorwyr newydd eu hethol yn cael eu hethol i'r Cabinet ac roedd yn teimlo nad oedd safbwyntiau aelodau o'r meinciau cefn yn cael eu hystyried yn iawn gan y Cabinet presennol a'i phryderon am allu'r cyngor i osod cyllideb gytbwys.
- Amlinellodd y Cynghorydd Hugh Evans, cyn Arweinydd y Cyngor, rolau'r Cabinet, aelodau arweiniol a swyddogion mewn prosiectau megis newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Dywedodd fod gan Gyngor Sir Ddinbych wasanaethau, swyddogion ac aelodau da, ond o ystyried yr anawsterau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, roedd mewn perygl o gael ei roi mewn mesurau arbennig yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd Evans yn bryderus ynghylch y bobl ddiameddiffyn yn y cymunedau a oedd yn dibynnu ar wasanaethau'r Cyngor. Holodd y Cynghorydd Evans sut yr oedd arbedion o wasanaethau yn cael eu nodi a dywedodd bod y cynllun corfforaethol mewn trafferth ac yn awr roedd angen canolbwyntio ar feysydd darparu gwasanaeth allweddol y Cyngor.  
Awgrymodd y Cynghorydd Evans i'r aelod arweiniol, y Cynghorydd Mellor, y dylid galw cyfarfod grŵp tasg a gorffen aelodau ar frys i lywio gweithrediad y newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff.  
Er mwyn cyfleu dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol anodd, holodd y Cynghorydd Evans a fyddai'r Cabinet yn gallu gweithredu gydag 8 aelod yn lle 9.
- Dywedodd y Cynghorydd Justine Evans ei bod wedi cael ei hethol i gynrychioli trigolion Y Rhyl a'i bod wedi dod yn fwyfwy anodd i amddiffyn penderfyniadau a wnaed ac felly byddai'n cefnogi pleidlais o ddiffyg hyder.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at ei gyfnod fel o'r Cabinet yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf a mynegodd bryderon ynglŷn â'r gyllideb a'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau.
- Anogodd y Cynghorydd Merfyn Parry yr aelodau i feddwl am beth fyddai eu pleidlais yn ei olygu a gofynnodd am gael pleidlais wedi'i chofnodi yn dilyn y drafodaeth, a chytunodd yr aelodau.
- Eglurodd y Cynghorydd Julie Matthews bod y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei ddiwygio mewn ymgynghoriad ag aelodau mewn gweithdy i aelodau a chyda Arweinwyr Grwpiau i adnabod y cyfyngiadau ariannol a rhyddhau capasiti gwasanaeth. Cytunodd y Cynghorydd Matthews, aelod arweiniol y Cynllun Corfforaethol, y gellir diwygio blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol os oedd yn briodol i wneud hynny. Yn fwy na dim, anogodd y Cynghorydd Matthews yr aelodau i ddod at ei gilydd fel un Cyngor i weithio ar y cyd.
- Amlygodd y Cynghorydd Chris Evans y sefyllfa groes i arferion busnes lle'r oedd y Cyngor yn gorfod gwario £60,000 yn ychwanegol o arian y cyhoedd yr wythnos i unioni problemau'r gwasanaeth casglu gwastraff newydd. Rhestrododd wasanaethau cyhoeddus eraill a fyddai wedi gallu elwa o fuddsoddiad o'r fath.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrea Tomlin at y sefyllfa ym Mhrestatyn, a oedd wedi dioddef o ganlyniad i gyfathrebu a phenderfyniadau gwael y Cabinet ac amharodrwydd i ganiatáu i aelodau eraill ymgysylltu yn ystod ei hamser fel cynghorydd yn cynnwys ar oriau agor llyfrgelloedd, taliadau parcio hwyr y nos a dynodiadau 20mya. Dywedodd y Cynghorydd Tomlin bod y problemau mewn perthynas â chasgliadau gwastraff wedi bod yn benodol ddifrifol ym Mhrestatyn a heriodd grynodedb cynharach yr Arweinydd o berfformiad presennol y gwasanaeth casglu gwastraff. Cyfeiriodd y Cynghorydd Tomlin



hefyd at ddirywiad yng ngweithrediadau gwasanaethau stryd a chadarnhaodd ei chefnogaeth o'r cynnig i ddiswyddo'r Arweinydd a'r Cabinet.

Diolchodd y Cynghorydd Barry Mellor, aelod arweiniol yr amgylchedd a chlodiant, i'r Cynghorydd Hugh Evans am ei gyngor ac fe gadarnhaodd y byddai'n ymchwilio i'r awgrym i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen. Cyfaddefodd fod cyflwyno'r gwasanaeth casglu gwastraff newydd wedi bod yn wallus a bod angen camau pellach i sicrhau hyfywedd y gwasanaeth yn y tymor hir. Fodd bynnag, roedd yn hyderus bod y gwasanaeth yn addasu i'r heriau a'i fod wedi dysgu gwersi a gwybodaeth allweddol o'r cam gweithredu dechreuol. Roedd y Cynghorydd Mellor yn hyderus y byddai'r llwybrau newydd yn llwyddiannus wedi iddynt gael eu sefydlu ond nododd nad oedd unrhyw wasanaeth casglu gwastraff yn gallu sicrhau gwasanaeth heb fethu unrhyw gasgliadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mellor at rolau'r aelodau Cabinet blaenorol o ran annog a dylunio'r system casglu gwastraff newydd.

Fel yr un a gyflwynodd y cynnig, rhoddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts grynodedb o bwmpas y cynnig a'r safiadau a wnaed ar ddechrau'r cyfarfod gan rai o'r grwpiau gwleidyddol. Adroddodd y syniadau a oedd wedi'u cynnig ar ddechrau'r broses gyflwyno a'i siom nad oedd y broses gyflwyno wedi cael ei threalu fesul ardal yn lle'r sir gyfan. Eglurodd mai pryder mawr o'r effaith ar wasanaethau eraill o ganlyniad i'r problemau casglu oedd anallu trigolion i gysylltu â'r cyngor oherwydd bod y sianeli gwasanaeth i gwsmeriaid wedi bod yn brysur oherwydd y miloedd ar filoedd o alwadau a gafwyd gan drigolion am y casgliadau gwastraff a fethwyd.

Diolchodd y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor i'r Cadeirydd am ei sgil a'i degwch wrth gadeirio trafodaeth bwysig. Rhoddodd grynodedb o'r sefyllfa a oedd wedi cael ei thrafod am gamau yn y dyfodol ac ymholiad craffu i'r drefn gyflwyno. Mynegodd ei syndod ynghylch sylwadau'r aelod arweiniol gwastraff blaenorol, ynglŷn â dylanwad honedig Llywodraeth Cymru wrth wthio'r system newydd ymlaen, oherwydd nid oedd wedi gweld cyfeiriad at hyn yng nghofnodion y cyfarfodydd lle'r oedd yr aelod arweiniol blaenorol wedi dangos ei gefnogaeth i'r system newydd.

Yn olaf, dywedodd y Cynghorydd McLean y byddai'n parhau i fynd i'r afael â'r problemau ariannu a chaledi difrifol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, a fyddai'n galw am wneud penderfyniadau anodd a diolchodd i'r aelod arweiniol cyllid a swyddogion cyllid y Cyngor am eu cyfraniadau at y gwaith hwn.

### **CAFWDYD PLEIDLAIS WEDI EI CHOFNODI - cafodd ei chynnig a'i heilio gan y Cynghorwyr Merfyn Parry a Karen Edwards**

O blaid y cynnig:

Y Cynghorwyr Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Brian Jones, Paul Keddie, Geraint Lloyd-Williams, Terry Mendies, Merfyn Parry, Andrea Tomlin a Huw Williams

Yn erbyn y cynnig:

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Ellie Chard, Kelly Clewett, Gwyneth Ellis, Jonathan Harland, Elen Heaton, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Alan James, Delyth Jones, Diane King, Julie Matthews, James May, Jason McLellan, Barry Mellor, Raj Metri, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Rhys Thomas, Cheryl Williams, Elfed Williams, Eryl Williams, ac Emrys Wynne

Ymatal: Y Cynghorwyr David G Williams, Mark Young a Peter Scott

**O BLAID – 17**  
**YN ERBYN – 0**  
**YMATAL – 3**

**PENDERFYNWYD** nad yw'r Cyngor yn cefnogi'r cynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet.

#### **4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cynghorydd Peter Scott am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd newydd i'r Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2024-2025.

Cafodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei enwebu gan y Cynghorydd Rhys Thomas, ac fe eiliwyd yr enwebiad gan gyn Is-gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Diane King.

Ni chafwyd rhagor o enwebiadau.

Cadarnhaodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol eu cytundeb i benodi'r Cynghorydd Arwel Roberts a datganodd ei fod yn derbyn swydd yr Is-gadeirydd.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Arwel Roberts yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2024-2025.

#### **5 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw faterion bryn.

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Terry Mendies –

*“Pam nad yw Rhybudd Gorfodi a gyhoeddwyd ar gyfer Eiddo yn Llandegla ar 7 Medi 2020 wedi'i orfodi, er bod pedair blynedd ers hynny dridiau yn ôl.”*

Ymatebodd y Cynghorydd Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio fel a ganlyn:

“Mae'r achos hwn wedi bod yn sefyllfa gyfreithiol gymhleth. Cyflwynodd y Swyddogion Rybudd Gorfodi Cynllunio. Ni chydymffurfiwyd â'r Rhybudd, felly, penderfynodd y cyngor ymgymryd â'r gwaith yn ddiodyn i geisio cydymffurfiaeth â'r Rhybudd. Cwblhawyd y gwaith, ac mae'r safle wedi dychwelyd i'w gyflwr blaenorol.

Cyflwynodd y Swyddogion gais llwyddiannus am Waharddeb Llys i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau diawdurdod yn cael eu gwneud ar y tir eto. Hefyd, llwyddodd y Swyddogion i erlyn y tirlfeddiannwr a sicrhau dirwy.

Yn fy marn i, y prif bwynt yma yw bod y safle wedi cael ei adfer, ac felly mae'r effaith niweidiol ar amwynder y cyhoedd ei unioni."

Dywedodd y Cyngorydd Terry Mendies ei fod yn fodlon gyda'r ymateb i'w gwestiwn.

## 6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2024.

Materion yn Codi –

Tudalen 19 - Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf - Mynegodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts ei bryderon ynglŷn â'r pwysau gwaith trwm ar y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a gofynnodd bod y sylw hwn yn cael ei gynnwys yn y cofnodion.

Tudalen 14 - Eitem 4 yn y Cofnodion - Dywedodd y Cyngorydd Julie Matthews nad oedd wedi dosbarthu'r ymateb a anfonwyd i Mr Gonzalez i'r cynghorwyr ond byddai'n gwneud hynny ar ôl y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.

## 7 PENODI CYFARWYDDWR HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes adroddiad Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw). Cadarnhaodd fod cyfarwyddwr y bwrdd wedi cael ei benodi yng nghyfarfod diwethaf y bwrdd ar gyfer swydd wag aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod swydd wag arall ar Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyf., ond y tro hwn ar gyfer cyngorydd mainc gefn oherwydd bod y deiliad blaenorol, y Cyngorydd Diane King, wedi cael ei phenodi i'r Cabinet ac wedi cymryd sedd Aelod Cabinet ar y bwrdd.

Enwebodd y Cyngorydd Merfyn Parry y Cyngorydd Paul Keddie, ac fe eiliodd y Cyngorydd Karen Edwards.

Enwebodd y Cyngorydd Diane King y Cyngorydd James May, ac fe eiliodd y Cyngorydd Gareth Sandilands.

Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo ac roedd y canlyniad fel a ganlyn -

O blaid y Cyngorydd Paul Keddie – 19

O blaid y Cyngorydd James May - 17

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Paul Keddie i fod yn aelod etholedig nad yw'n aelod o'r Cabinet Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 8 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad Polisi'r Cyngor ar Hyfforddiant Aelodau (dosbarthwyd ymlaen llaw) ac fe arweiniodd yr aelodau drwy'r adroddiad.

Dechreuodd rhaglen o ymsefydlu, hyfforddiant a datblygu i aelodau yn syth ar ôl etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2022. Roedd y sesiynau a gyflwynwyd i ddechrau wedi canolbwyntio ar sefydlu aelodau newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd, yn cynnwys hyfforddiant ar God Ymddygiad y Cyngor, darpariaeth TGCh Aelodau, ymglyfarwyddo â gwasanaethau, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu a chyflwyniad i Graffu. Roedd y Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i aelodau ar sail barhaus.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod arolwg wedi cael ei gynnal rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2024, a oedd yn agored i gynghorwyr, uwch swyddogion ac aelodau lleyg ac roedd y canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Hysbysodd yr aelodau ynglŷn â chynnwys fersiwn arfaethedig polisi'r cyngor ar hyfforddiant aelodau a oedd yn atodiad 1 i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bobby Feeley, cadarnhawyd bod swyddogion yn rhoi o'u hamser i gyflwyno hyfforddiant i aelodau, oherwydd swyddogion a oedd fel arfer yn darparu hyfforddiant ar eu meysydd gwasanaeth i aelodau. Lle'r oedd hwyluso'n allanol yn cael ei ffafrio neu'n angenrheidiol, roedd yn aml yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim i'r Cyngor, yn enwedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn achlysurol, roedd yn rhaid i'r Cyngor brynu darpariaeth hyfforddiant allanol i mewn yn defnyddio cyllideb hyfforddiant aelodau fach a oedd yn cael ei hariannu'n gorfforaethol. Roedd yn cael ei rheoli'n ofalus ac fel arfer yn tanwario. Pleidleisiodd yr Aelodau'n unfrydol i fabwysiadu'r polisi.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn mabwysiadu fersiwn ddrafft Polisi'r Cyngor ar Hyfforddiant Aelodau, sydd wedi ei hatodi yn atodiad 1 yr adroddiad.

## 9 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Delyth Jones y Rhybudd o Gynnig canlynol:

*'Gyda'r galw am wasanaethau'r gwasanaeth cymdeithasol plant a phobl ifanc yn cynyddu ar raddfa nas gwelid yn flaenorol yn ein Sir, a'r pwysau aruthrol mae hyn yn ei osod ar ein cyllideb fel Cyngor. Cynigiwn fel aelodau Grŵp Plaid Cymru ein bod yn ysgrifennu at yr holl aelodau seneddol sy'n cynrychioli ein sir yn San Steffan ar y mater. Cynigiwn ein bod yn gofyn i'r aelodau perthnasol hynny i ail edrych ar eu safbwynt ar fater uchafswm budd-daliadau dau blentyn, a chefnogi'r angen i'w ddiddymu. Trwy hyn i ddangos eu cefnogaeth i deuluoedd mwyaf bregus Sir Ddinbych yn ogystal â chynorthwyo i ostwng y galw ar ein gwasanaethau cymdeithasol yn lleol.'*

Siaradodd y Cynghorydd Jones o blaid y cynnig, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Julie Matthews. Cefnogwyd y cynnig gyda datganiadau gan y Cynghorydd Matthews a'r Cynghorydd Rhys Thomas, yn cynnwys cyfeiriadau at gyfraniad yr uchafswm budd-daliadau dau blentyn at dlodi plant a theuluoedd, a oedd yn bryder penodol yn y sir oherwydd bod rhai ardaloedd yn Sir Ddinbych ymysg y rhai â'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru, y galw yr oedd tlodi teuluoedd yn ei roi ar wasanaethau cymdeithasol y Cyngor a'r effeithiau negyddol y gallai'r uchafswm budd-daliadau eu cael o ran ceisio neu symud i gyflogaeth tâl uwch. Pleidleisiodd yr Aelodau'n unfrydol o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig a bod llythyr yn cael ei anfon at aelodau Senedd y DU sy'n cynrychioli etholwyr Sir Ddinbych yn eu hannog i gefnogi diddymu'r uchafswm budd-daliadau dau blentyn.

## **10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes, gyflwyniad a chrynodeb o sefyllfa ddiweddaraf Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Waith y Cyngor a Rhaglen Waith Gweithdai'r Cyngor.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 1.35 P.M.**